# CAN NEWYDD;

SEF

## ACHWYNIAD

# SIAN WILLIAM HARRI,

## O GWMTAF,

O HERWYDD IDDI BRIODI

## TWM Y CYBYDD,

*Yr hwn, gyda'n addewidion da, a'i arian mawr a'i denodd, ac ar ol hyn ni safodd at ei addewidion.*



1854.

# CAN NEWYDD.

Cenir ar "Lili lon."

Ferched ieuanc glân y gwledydd,
Dewch i wrando caniad newydd,
Traethaf i chwi beth o'm hanes
Gyda'r cybydd cas anghynes.
Ferched llon, coeliwch chwi,
Fod yn well i rodio'n ffri,
Na phriodi'r un hen gybydd
Cas annedwydd, fel gwnes i.

2. Ces fy magu ar y cyntaf
Gyda 'nhad a mam anwylaf,
Dim ond fi yr unig blentyn,
Cawn bob peth a fa'wn yn 'mofyn.
Ferched llon, &c.

3. Pan yr o'wn y'mlodau'm ie'nctyd,
Cawn bob math o wisgoedd hyfryd,
Dandy caps yn llawn rhybanau,
Ac *artificials* o bob lliwiau.
Ferched llon, &c.

4. *Polka dress* a'r shawls o'r hardda',
*Bombazines* ac *alapaca*,
Neisedi sidan ac umbrelo,
Ac am y *bustle* bum bron anghofio,
Ferched llon, &c.

5. 'Roedd y meibion am fy ngharu,
Waith fy mod yn ferch mor deidy ;
Os gwela 'nhad fi yn nghwm'ni bachgen,
Mi gawn ei ffon yn groes i 'nghefen.
Ferched llon &c.

6. Ond Twm y cybydd a ddaeth heibio,
Eisiau gwraig yn dost oedd arno,
Gan ddweyd os gwnewch chwi fy mriodi
Myfi a'ch cadwaf fel rhyw lady.
Ferched llon, &c.

7. Dywedodd cawswn ar ben borau
Ganddo ddeunaw cant o bunnau,
A morwynion i fy nhendio,
Dyna'r lwc o'wn innau'n leicio.
Ferched llon, &c.

8. 'Nol priodi troes yn greulon,
O fwyd ni chawn i hanner digon,
Ond bara llwyd ac ambell grwstyn,
A phisyn bach o gwt 'sgadenyn.
Ferched llon, &c·

9. Mi ofynais p'le mae'r forwyn,
A'r te, y deisen frau, a'r pwdin ;
Fe wnaeth y cybydd olwg chwerw,
A finnau'n llwyd, 'run lliw a'r lludw.
Ferched llon, &c.

10. Mae e'n cloi y bwyd a'r arian,
A chadw yr allweddau'i hunan,
Ni chaf *starch* na *blue*, na sebon
Na *phinch* o snuff i'm cadw'n foddlon.
Ferched llon, &c.

11. Pan yn awr y nos i'r gwely,
Troi ei gefn wna ef a chysgu ;
Rhydd chwech i rai am *jig my fando*,
Ofn magu'r plant sydd arno.
Ferched llon, &c.

12. Mae'n well i mi gael un o'r Irish,
Sydd a'i grys trwy din ei drowsys,

Nen faledwr hyd y gwledydd,
Mae pob math yn well na'r cybydd.
Ferched llon &c.

13. Os byddaf byw 'nol iddo farw,
Gwnaf griws o de y diwrnad hwnw,
Bydd yn ei wylnos bob llawenydd,
Gwasgaraf beth o bwrs y cybydd.
Ferched llon, &c.

14. Pe bai'i wyneb wedi'i guddio,
Mi gaf rhyw lawenydd etto,
Peth mawr yw deunaw cant o bunnau,
'Rwy'n ddigon siwr caf wr yn rhywle.
Ferched llon, &c.

15. Mae'n haws cyd-ddwyn a hen ddyn meddw,
Mi gaf ambell swllt gan hwnw,
Fe dd'wed yn llon 'nol iddo sobri,
*Now for a kiss my dear Jenny.*

16. Boed hyn er cynghor i rieni
I beidio fforsio'u plant 'briodi;
Lle rhedo'r serch yw'r fan i fatcho,
Pe bai y dyn heb geiniog ganddo.
Ferched llon, &c.

17. Cofiwch ferched ieuainc beunydd,
Gadw yn mhell oddiwrth bob cybydd;
Cyn yr eloch i briodi,
Prynwch gân 'r hen Shan Wil Harri.
Ferched llon, coeliwch chwi,
Fod yn well rhodio'n ffri,
Na phriodi'r un hen gybydd
Cas annedwydd, fel gwnes i.

D. JONES, Llanybydder.